# *Sgript* llwybr sain Tyn y Groes: 'stori'r coedwigwr'

Croeso i'r llwybr sain hwn sy'n cynnwys cyfweliad â choedwigwr yn nyddiau'r Comisiwn Coedwigaeth, y corff oedd yn arfer gofalu am Goed y Brenin cyn ffurfiwyd Cyfoeth Naturiol Cymru.

### Trac 1. Os ewch chi i'r goedwig heddiw, rydych yn siŵr o gael eich synnu

A glywsoch chi am y goedwigwr nad oedd eisiau torri coed i lawr? Daliwch ati i wrando, oherwydd mae'n debyg bod rhywbeth rhyfedd yn digwydd i bobl sy'n rheoli'r bloc deugain hectar o goedwig hwn ym mharc coedwig Coed-y-Brenin.

Ers plannu'r ffynidwydd Douglas mawreddog sy'n sefyll yn urddasol o'ch blaen, yn y 1990au, mae staff y Comisiwn Coedwigaeth wedi gwneud rhai penderfyniadau hynod a wrthwynebwyd gan eu cyfoedion ond sydd yn y pendraw wedi dod â phleser a chyfleoedd i filiynau o bobl.

Dros y pum munud a deugain nesaf, byddwch yn clywed am goed sy'n hedfan a choedwigwr a oedd eisiau i bobl gerdded yn y goedwig. Efallai y bydd hyn yn swnio'n rhyfedd heddiw, ond nôl yn y 1960au, nid man i bobl gyffredin oedd y man hwn.

Ond dewch i ni ddechrau gyda chasglwr planhigion o'r Alban a rhoddodd ei enw i'r coed tal conifferaidd ar y llwybr o'ch blaen. Teithiodd David Douglas drwy Ogledd America'n chwilio am blanhigion a chredir iddo gyflwyno bron i 250 o rywogaethau planhigion i Brydain, a drawsnewidiodd ein tirwedd a'r diwydiant pren. Ond pan oedd o ond yn bymtheg ar hugain oed, wrth ddringo llosgfynydd yn Hawaii, bu farw cyn ei amser mewn ffordd ddigon annifyr.

*"Roedd David Douglas, fel yr oedd o o hyd, yn tramwyo drwy'r coedwigoedd yn America, ac yn anffodus, ddaeth o i farwolaeth go hyll. Pryd roedd o yn y goedwig, roedd y bobl leol yn dal bwyd wrth 'neud twll yn y ddaear ac yn dal ac yn cuddio'r twll fel bod anifeiliaid yn cwympo i mewn iddo ac yn anffodus, mi ddaru David Douglas gwympo mewn iddo fo, a hyd yn oed mwy anffodus iddo fo, mi oedd 'na darw mawr digwydd â bod yn yr un un twll, ac mi laddwyd yn y fan a'r lle."*

Rwan, dilynwch y nodwyr llwybrau melyn a chwiliwch am y safle MP3 nesaf ar y llwybr.

**Trac 2. Eisteddwch nôl ac ymlacio - rydych mewn cwmni da**

*“Un o’r ffordd gorau i weld faint o fawr a faint o syth ydy’r coed yma ydy gorwedd lawr ym monyn y goeden ac edrych fyny at eu blaen a gallwch chi weld faint o fawr a faint o syth ydy’r goeden yma. Eu defnydd ydy, neu un o’u defnyddiau gorau ydy mynd fel mast i longau hwylio. Maen nhw’n berffaith i hynny. Maen nhw’n syth, maen nhw’n uchel, a hefyd mae’r coed, y lliw tywyll brown yma yn werth ei weld. A hefyd mae’n cymryd straen yr hwyliau hefyd. Defnydd arall hefyd ydy mewn tai, innau tu allan neu tu mewn. Tu allan oherwydd bod y coed yma yn gallu para bron iawn cystal â derw, tu allan.”*

Felly rowch saib i’ch traed a neidiwch ar wely’r goedwig. O’r safle hwn, gallwch edmygu canopi’r goedwig.

Mae’n drueni nad ydy’r coed hyn yn gallu siarad oherwydd dw i’n siŵr byddent yn gallu adrodd nifer o straeon. Ond rydyn ni’n ffodus i gael y coedwigwr lleol, Aled Tomos, i rannu ei straeon ei hun am y goedwig hon. Mwynhewch olygfeydd a seiniau’r afon Eden wrth i chi ddilyn y llwybr tuag at y Brenin, y Pencampwr a Safle Rhif 3.

**Trac 3. Y Brenin, y Pencampwr a'r Ymhonnwyr ifanc**

Yn syth o'ch blaen, saif y brenin, y credir iddo fod â'r cyfaint mwyaf o bren yn y goedwig. Ychydig lathenni i'r chwith mai'r Pencampwr. Dyma'r goeden dalaf yn y goedwig hon. Ond ni all yr un ohonynt orffwys ar ei bry oherwydd bod yr amgylchiadau yma'n ddelfrydol ar gyfer tyfiant, fel mae Aled Tomos yn datgelu.

*"Mae'r coed Douglas sydd yn tyfu yma yn Ty'n y Groes wedi tyfu yn dda iawn. Mae hyn oherwydd bod 'na gysgod iddyn nhw o'r mynyddoedd cyfagos a'r cwm dyfn yr Afon Mawddach. Mae hyn yn gwneud llecyn cynnes a chysgodol. A hefyd mae'r pridd yn ofnadwy o ffrwythlon ac felly'n gadael y coed yma i dyfu'n enfawr fel maen nhw. Fel coedwigwyr, 'dan ni'n licio edrych ar ôl ein coed, ac i reoli'r coed yma, be 'dan ni'n neud ydy tynnu allan bob rhyw 5 i 8 mlynedd, rhyw 3, 4 o goed mewn ryw gylch, reit trwy'r ardal i gyd. Ac mae hyn wedyn yn gadael golau i ddod lawr ar lawr y goedwig fel bod coed ifainc yn cael dechrau. Ond ddim y golau sy'n dod o uwchben y coed sydd yn bwysig. Yr hyn sydd o'r ochr a hwn sydd yn gadael coed bach, sydd yn tyfu, 'dach chi'n gweld yn tyfu o gwmpas y lle, ar fat o fwsog sphagnum, sphagnum moss, ydy o, ac felly mae hwn yn le eithriadol o dda i goed bach ifanc i gael meithrin ac wedyn tyfu, a'r coed bach yma bydd y coed mawr yn y dyfodol."*

Mae'r babanod hyn tua 50 medr o daldra ac mae ganddynt ffordd hir i fynd cyn cyrraedd taldra eu cefndryd yng Ngogledd America, ble gofnodwyd taldra hyd at 120 medr ymhlith ffynidwydd Douglas sy'n 600 mlwydd oed.

Mae'r llwybr pob-gallu yn gorffen yn y fan hon. Gallwch ddilyn yr un llwybr yn ôl i'r maes parcio neu barhau ar y prif lwybr, gan ddilyn y nodwyr llwybr melyn tuag at y Pencampwr. Mae'r rhannau byr o'r llwybr hwn yn fwy serth ond mae'n parhau yn llydan heb risiau na chamfeydd.

Yn Arhosfa 4, cewch glywed am y dyn a oedd eisiau rhannu ei goed ag ymwelwyr.

**Trac 4. Ewch ymaith oddi ar fy nhir**

Cyn y 1960au, gall coedwigwr profiadol fynd o gwmpas ei waith yn torri coed i lawr a defnyddio ei geffyl ffyddlon i symud y boncyffion gwerthfawr i ffwrdd. Byddai'r syniad o gael pobl gyffredin yn cerdded trwy goedwigoedd ar ei olwyd yn fanwl ganddynt wedi rhoi ias oer iddyn nhw. Mae'n siŵr pan ddisgrifodd coedwigwr cynt, Reg Wealer, y weledigaeth hon, roedd llawer o'i gydweithwyr yn meddwl bod yr oriau gwaith hir ac unig wedi effeithio arno.

*"Pryd 'dach chi'n cerdded trwy'r coed, sylwch ar rai o'r coed, mae 'na ôl-troed wedi'i beintio, a hwn oedd yr hen lwybrau a roddodd Reg Wealer mewn ryw 30 mlynedd yn ôl, fel bod pobl yr amser hynny'n gallu mwynhau'r coed yma."*

Ond heb gyfraniad coedwigwr arall, a oedd yr un mor flaengar, efallai na fyddwn ni'n mwynhau'r coed tal mawreddog hyn heddiw. Yn ystod y 1970au, roedd cynlluniau i dorri'r holl goed hyn i lawr er mwyn uchafu eu gwerth economaidd.

*"Oherwydd bod pobl yn hoffi cerdded trwy goed mawr ac uchel, mi roedd hynny, safiwyd y coedlannau yma rhwng y bobl leol, y parc cenedlaethol a hefyd coedwigwr a oedd yn edrych i'r dyfodol, mae'r rhain dal yn sefyll."*

Wedi i goed gael eu torri i lawr, beth yw'r ffordd orau o'u symud? Cewch wybod yn nes ymlaen ar y llwybr yn arhosfa 5.

**Trac 5. Y Nenlinell - nid oedd iechyd a diogelwch yr hyn yr ydyw nawr**

*“Dw i’n cofio dod yma pan oeddwn i’n dechrau cwympo coed i’r comisiwn, ac o’n blaenau ni, mae ‘na linell o goed lle oedden nhw’n tynnu coed i lawr i’r man lle ‘dan ni’n sefyll. Ac wrth gwrs, doedd iechyd a diogelwch ddim fel mae hi rwan ac roedd ‘na goeden yn cael ei thynnu lawr at y ffordd fach y wlad sydd o’n blaenau ni. Ac fel roedd hi’n cyrraedd y ffordd, mi ddaeth yna gar rownd y gornel. A chael a chael, gaeth o’i stopio cyn i’r goeden fawr yma dod ar draws y ffordd.”*

Mae’r llwybr yn troi nôl rwan at y maes parcio ar hyd ochr y ffordd darmac. Byddwch yn ofalus o’r traffig wrth i chi gerdded at yr arhosfa nesaf.

**Trac 6. Coedwig sy'n ddigon da i frenin**

Fel y gwelwch yn ôl yr arysgrif, mae'r garreg hon yn coffáu jiwbilî arian y brenin Siôr y pumed, ond pam ei gosod yma ar lôn dawel yng Nghoed y Brenin.

Mae'r ateb i'w gael yn enw'r goedwig.

Yn wreiddiol, roedd y goedwig hon yn rhan o Stad Nannau, sy'n dyddio'n ôl i'r ddeuddegfed ganrif. Pan ddaeth y llinach wrywaidd i ben, fe'i throsglwyddwyr i'r llinell fenywaidd, a oedd yn briod â theulu Vaughan, sef teulu pwerus, dylanwadol o frenhinwyr. Ac adweinwyd yr ardal hon fel Coedwig Vaughan. Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, prynodd y Comisiwn Coedwigaeth y goedwig 9000 hectar ac ym 1935, rhoddwyd yr enw newydd i'r goedwig, sef Coed-y-Brenin, i ddathlu'r jiwbilî. Gosodwyd y garreg yn y fan hon, gan fod y lôn yn arwain at eglwys y teulu Vaughan ym mhentref Llanfachreth ac ymlaen at Blasdŷ Nannau.

Nid i'r teulu Vaughan yn unig y mae'r diolch am reoli'r goedwig hon, ond hefyd i'r coedwigwyr a'u gweledigaeth a chwaraeodd rhan mewn tyfu'r gwarchodlu brenhinol trawiadol hwn.

*"Dan ni 'di cael ambell i goedwigwr hurt yma yng Nghoed-y-Brenin. Un oedd ddim isio gadael pobl i mewn i'r goedwig. Un arall oedd ddim isio cwympo coed. Ac wedyn yn fwy diweddar, yn y nawdegau, Dafydd Davis, eisiau rhoi beicwyr mynydd yn y goedwig, a dyna beth sydd gynnon ni rwan. Beth sydd gennym ni ydy coedwig a ddim hurt oedden nhw, roedd ganddyn nhw weledigaeth mawr o sut oedd y goedwig yn mynd i edrych yn y dyfodol a dyna beth sydd gynnon ni rwan. A dyma fy ngwaith i, ydy rheoli'r goedwig yma, ac fel coedwig multi-purpose. 'Dan ni'n edrych ar ôl cadwraeth, hamdden, a hefyd yn cynhyrchu coed yma."*

Gallwch glywed mwy am hanes cyfoethog Coed-y-Brenin ar bedwar llwybr arall yn y parc coedwig. Ariannwyd y llwybrau clywedol gan y Rock Trust, sef elusen sydd wedi'i lleoli ym Meirionnydd. Ac mae pob un ohonynt ar gael i'w lawrlwytho am ddim.